

Cyfarfod Meeting	Partneriaeth Gwledig Môn		
Lle Venue	Neuadd y Dref Llangefni		
Dyddiad Date	05/07/2016	Amser Time	4.00 pm

Presennol:

Cynrychiolwyr y Sector Menter:		
Non Hughes	(NH)	
Cynrychiolwyr y Sector Gwirfoddol/Cymunedol		
Sian Purcell	(SP)	Medrwn Môn
Cynrychiolwyr y Sector Cyhoeddus		
Martin Jardine	(MJ)	Grŵp Llandrillo Menai Group (Cadeirydd)
Molly Lovatt		Cyfoeth Naturiol Cymru
Staff Menter Môn		
Dafydd Gruffydd	(DG)	
Jane Davies	(JaD)	
Neil Johnstone	(NJ)	
Jackie Lewis	(JL)	
Gerallt Llewelyn Jones	(GLIJ)	
Staff Cyngor Môn		
Aled Prys Davies	(APD)	CSYM
Staff Llywodraeth Cymru		
John Davies	(JD)	Llywodraeth Cymru

Pwynt	Manylion	Gweithred
1	<p>Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Martin Jardine.</p> <p>Estynnwyd croeso arbennig i John Davies o Lywodraeth Cymru a chadarnhawyd nad oedd cworwm yn y cyfarfod felly na fyddai unrhyw benderfyniadau terfynol yn cael eu gwneud yn y cyfarfod. Nododd JD a'r Cadeirydd y byddai angen gweithredu gweithdrefnau ysgrifenedig i wneud penderfyniad terfynol. Gan nad oedd Eifion Jones yn bresennol, cytunwyd i anfon cofnodion at holl aelodau'r GGLI yn gofyn am gadarnhad a chymeradwyaeth i'r holl gynigion. Mae hyn i fod i gael ei wneud erbyn diwedd yr wythnos.</p>	<p>JL i deipio'r cofnodion i'w hanfon i GLIJ, i'w hanfon i holl aelodau'r GGLI</p>

2	<p>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr aelodau canlynol.</p> <p>Dr Dylan Evans, Mark Gahan Dewi Jones Jean Baker Mari Faulkner Heidi Williams Dr Trevor Jones</p>	
3	<p>Datgan Diddordeb.</p> <p>Nododd Sian Purcell (Medrwn Môn) ddiddordeb yn DAISY – cwblhawyd ffurflen datganiad.</p>	
4	<p>Refferendwm yr UE</p> <p>Dywedodd GLLJ a JD ar ôl cyfathrebu gyda WEFO a Llywodraeth Cymru, a chan nad oedd cytundeb cyfreithiol rhwng LIC a GGLI'au, y byddent yn anrhydeddu'r Cynllun Datblygu Gwledig tan 2020; fodd bynnag, gall unrhyw raglenni newydd nad ydynt eto wedi'u lansio h.y. Glasdir, gael eu gohirio nes bod y sefyllfa yn dod yn gliriach.</p>	
5	<p>Cofnodion y cyfarfod – 02/03/16</p> <p>Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod.</p> <p>Cynigwyd gan: Gerallt Jones</p> <p>Eiliwyd gan: Sian Purcell</p>	
6	<p>Materion yn Codi</p> <p>Estynnodd y Cadeirydd ei ddiolch i Elfyn Roberts a dymunodd yn dda iddo ar ei ymdeoliad (nid oedd ER yn bresennol). Hysbysodd GLLJ y cyfarfod y bydd y weithdrefn hawliadau newydd yn cael ei rhoi ar waith ym mis Gorffennaf, a bod gwariant yn dal yn araf, ond roedd 10 cynnig i'w trafod a bydd gwariant yn gwella dros y 3 mis nesaf.</p> <p>Gwaith Smart</p> <p>Nid oedd unrhyw ddiweddariad.</p> <p>Codau QR mewn mynwentydd</p> <p>Hysbysodd JL y GGLI y cyflwynir y cynnig hwn yn y cyfarfod nesaf.</p>	
7	<p>Adroddiad Cynnydd:</p> <p>Roedd copi o'r adroddiad wedi'i ddsbarthu ymlaen llaw gan Eifion Jones; fodd bynnag, teimlai APD a JD nad oedd yr adroddiad ariannol yn glir ynghylch sut oedd gwariant</p>	<p>Eifion Jones i gael ei hysbysu</p>

	mewn perthynas â'r proffil, a bod angen i hyn fod yn gliriach; hefyd roedd angen i'r dull o adrodd ar berfformiad cynigion blaenorol a gymeradwywyd fod yn gyson.	
8	<p>Cynigion Prosiect</p> <p><u>Astudiaeth Twristiaeth Naws am Le – Thema 3</u></p> <p>Mae'r prosiect hwn yn ceisio lliniaru effeithiau toriadau gwasanaeth, yn yr achos hwn, gwybodaeth Croeso, drwy hyfforddi pobl sy'n dod wyneb yn wyneb â thwristiaid ac unrhyw un sydd angen gwybodaeth am Ynys Môn. Y mathau o bobl a'r rolau a fyddai'n cael eu targedu yw:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Wardeiniaid traeth • Cynorthwyr llyfrgell • Swyddogion derbynfa mewn adeiladau cyhoeddus • Cynorthwyr siop • Cwmnïau sector preifat yn y sector lletygarwch <p>Cyflwynwyd y syniad hwn gan gymdeithas Twristiaeth Ynys Môn, sef grŵp o fusnesau ar Ynys Môn sydd yn bryderus iawn fod pob Canolfan Groeso Awdurdod Lleol ar Ynys Môn wedi cau; fodd bynnag, sefydlwyd Pwyntiau Gwybodaeth i Dwristiaid mewn rhai busnesau a busnesau amlwg heb gynnig unrhyw hyfforddiant i'r unigolion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny. Mae'r astudiaeth yn bwriadu archwilio'r materion canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'r ffordd orau i gyflwyno gwybodaeth twristiaeth ar yr ynys • Pwy yw'r bobl orau i gyflwyno'r wybodaeth hon • A oes cwrs hyfforddiant presennol y gellir ei ddefnyddio • A oes angen creu modiwlau hyfforddi newydd • Pwy fyddai'n corff cyflenwi gorau • A oes angen cael achrediad i'r cwrs hwn <p>Nododd APD fod aelodau'r DMP yn poeni am y ffordd y mae gwybodaeth i dwristiaid yn cael ei lleadaenu a'i fod yn gefnogol i hyn. Dywedodd ML hefyd fod cysylltiad â chanolbwyntiau cymunedol sydd hefyd yn chwilio am y ffordd orau o hysbysu ymwelwyr am eu treftadaeth gymunedol.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI y cynnig hwn mewn egwyddor, i gontractwr gyflenwi'r camau gweithredu uchod a lleadaenu'r wybodaeth a gasglwyd o hyn yn ystod digwyddiad gyda gwariant o £6,000.</p>	
	<p><u>Teithiau Cam a Naid Gogledd Ynys Môn – Thema 1</u></p> <p>Mae'r peilot yn ceisio profi p'un a fyddai cyflwyno Taith Bws Cam a Naid (Hop On Hop Off) ynghyd â mentrau tocynnau ar y cyd yn ychwanegu gwerth at y cynnyrch twristiaeth yng Ngogledd Ynys Môn ac yn ymestyn budd economaidd arfordir Ynys Môn i'w</p>	

	<p>aneddiadau cysylltiedig. Petai'r peilot hwn yn llwyddiannus, bydd y syniad yn cael ei ailadrodd mewn ardaloedd eraill ym Môn a thu hwnt.</p> <p>Cysylltodd MM â Grŵp Treftadaeth Ynys Môn, grŵp o 8 o fentrau cymdeithasol sy'n rhedeg eu hatyniadau eu hunain, gyda'r bwriad o ddatblygu teithiau ardal a fyddai'n cynnig cludiant a gostyngiadau i dwristiaid a oedd yn dymuno dysgu mwy am dreftadaeth yr ynys. Gan ei bod yn anodd yn ddaearyddol cysylltu â'r grŵp hwn mewn un diwrnod, penderfynwyd mai cornel ogleddol yr ynys, sef Amlwch, Cemaes a Moelfre, y rhoddid 'cynnig arni' / ei threialu. I ddechrau y syniad oedd llogi bws trydan, ond gan nad oes pwynt gwefru ar hyn o bryd yn Amlwch, penderfynwyd treialu'r cysyniad gan ddefnyddio bws cyffredin, gyda golwg ar opsiwn trydan y tymor nesaf.</p> <p>Felly bwriad y cynllun peilot yw cyflwyno menter tocynnau ar y cyd rhwng y Llofft Hwyliau, Amgueddfa Copr, Watch Tower (GEOMON), Mynydd PARYS yn Amlwch, y Ganolfan Treftadaeth a TG ym Mae Cemaes a Chanolfan Sea Watch ym Moelfre. Bydd y safleoedd yn cael eu cysylltu drwy daith bws a fydd yn un Cam a Naid (camu arno a neidio'i fwrdd fel y dymunir). Bydd y cynllun peilot yn rhedeg am dri diwrnod yr wythnos am dri mis o fis Gorffennaf i fis Medi 2016. Ni chodir tâl am y cludiant yn ystod y cyfnod prawf, ond byddai LEADER yn cynhyrchu llenyddiaeth i hyrwyddo'r bysiau a'r ardaloedd. Gan fod hwn yn drefniant preifat, nid oes unrhyw ddadleoli o ran cwmnïau bysiau eraill na'r llwybrau a ddefnyddir.</p> <p>Bydd yr arian yn cael ei wario ar gaffael bws, cyhoeddusrwydd a chynllun busnes sylfaenol/ rhagolwg ariannol, a fydd yn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen i sicrhau hyfywedd.</p> <p>Gofynnodd APD am eglurhad ar y mater dadleoliad - ymatebodd JL fod hyn wedi cael ei drafod gyda swyddogion trafniadaeth CSYM a chan ei fod yn drefniant preifat ac amserau teithio yn rhai ar adegau tawel, nid oedd unrhyw broblem – yr oriau tawel yw ar ôl 10.00am a chyn 4.30pm.</p> <p>Gofynnodd y Cadeirydd am gadarnhad na fyddai unrhyw dâl yn ystod y cynllun peilot - ymatebodd DG drwy ddweud ein bod yn gallu codi tâl cyn belled â'i fod yn mynd yn ôl i mewn i'r prosiect, nid i unrhyw fanc atyniadau. Mae angen i hyn fod yn ymarfer amser real, felly'r angen am gyngor ariannol a busnes.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £8,150</p> <p><u>Hanes Digidol Ynys Môn – Thema 1 neu 5</u></p> <p>Bydd y prosiect yn profi p'un a all ymwelwyr a'r gymuned mewn ardaloedd mewndirol elwa ar, a chreu, 'naws am le' gwirioneddol drwy'r defnydd o dechnoleg ddigidol newydd o ganolbwyntiau cymunedol, i ddweud eu hanes yn greadigol am y gorffennol a'r presennol.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn anelu at ymgysylltu â thair cymuned ar Ynys Môn, sef Llanfechell, Bryngwran a'r Talwrn, i weld beth yw'r dull technoleg gorau i ddenu ymwelwyr a grwpiau i'r cymunedau mewndirol hyn yn weledol ac yn greadigol, a chyflwyno eu hanes unigryw iddynt. Mae pob ardal yn wahanol ond yr hyn sy'n eu gwneud yn debyg yw bod</p>	
--	--	--

	<p>pob pentref â chanolbwynt cymunedol. Llanfechell - caffi cymunedol a swyddfa bost, Bryngwran - tafarn sy'n eiddo i'r gymuned gydag ystafelloedd cyfarfod ac adeiladau allanol, a Talwrn - siop gymunedol gyda neuadd a chysylltiadau â Chors Bodeilio ac ystod o fioamrywiaeth.</p> <p>Gofynnwn am wario'r arian ar gymorth arbenigol i ymchwilio i'r posibiladau a allai weithio'n ddigidol ar gyfer pob ardal, ac yna gweithio ar dreialu'r rhain lle bo'n briodol.</p> <p>Bydd yr arian yn cael ei wario ar gyngor arbenigol, ymchwil ac ysgrifennu briff er mwyn cyflwyno cynnig pellach i'r GGLI ar gyfer treialu.</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gysyniad da iawn a gwerth am arian - holodd SP am y term Canolbwynt Cymunedol, mae'r term hwn eisoes wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer yr agenda iechyd a lles - eglurodd JL mai hwn oedd y term a ddefnyddir yn y Strategaeth Datblygu Lleol ac y byddai'n edrych am derm newydd i ddisgrifio ased gymunedol, y gellid ei ddefnyddio i'r diben uchod.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £1,500</p> <p><u>Tarddiad Lleol a'r Gadwyn Gyflenwi – Thema 2</u></p> <p>Mae hunaniaeth bwyd a bwyd fel esgynnydd datblygu economaidd yn parhau i fod yn set gyfle gref yn Ynys Môn. Hefyd mae bwyd yn rhan annatod o brofiad yr ymwelydd ac mae tarddiad lleol yn cyd-fynd yn dda â dyheadau cynyddol twristiaid i ymgysylltu â hunaniaeth ranbarthol a chefnogi economïau lleol. Nodwyd yn glir mewn llawer o gyfarfodydd busnes a grwpiau bwyd a gweithdai bod gan y cysyniad o 'tarddiad' ran fawr i'w chwarae wrth ddatblygu hyn ymhellach a chynyddu USP amgylcheddol ein bwydydd arbenigol. Felly, mae angen dealltwriaeth a dilysiad / gwerthusiad o'r term tarddiad 'lleol', ynghyd â throsolwg o fodolau presennol o 'god ymarfer gwirfoddol ar gyfer datganiadau tarddiad'.</p> <p>Yn ogystal, mae angen nodi bylchau yn y gadwyn gyflenwi fer fel rhan o'r gwaith hwn, er mwyn nodi cynlluniau peilot pellach sy'n ofynnol o fewn Thema LEADER 2 y gadwyn gyflenwi lleol, er mwyn cryfhau'r neges tarddiad lleol a'i gwerth ychwanegol pellach.</p> <p>Mae'r astudiaeth i fod mewn 2 ran, yn gyntaf bydd yn edrych ar y term 'tarddiad lleol', ei werth a gwerth posibl i economi Ynys Môn a modelau posibl y gellid eu defnyddio ar sail wirfoddol (a dderbynnir ac a hyrwyddir gan grwpiau bwyd/busnesau lleol). Wedi'i ysbrydoli gan Becyn Cymorth Llywodraeth yr Alban 'Tarddiad o'r Cynhyrchydd i'r Plât', teimlir bod angen symleiddio gofynion labeli tarddiad a chreu model cod gwirfoddol lleol i gael ei fabwysiadu a'i hyrwyddo gan y sectorau bwyd a lletygarwch lleol.</p> <p>Yr ail ran yw nodi'r 'bylchau' yn y gadwyn gyflenwi lleol sydd yn arwyddocaol i'r neges tarddiad, neu os y'i datblygir ymhellach, yn cynyddu potensial y gadwyn gyflenwi lleol. Bydd yr astudiaeth hon hefyd yn mynd rhywfaint o'r ffordd i fesur cynhyrchu o fewn sectorau penodol ar Ynys Môn (yn enwedig stoc pori).</p> <p>Dywedodd y Cadeirydd fod hwn yn gynnig da, ond i fod yn ymwybodol rhag ei orwneud, er mwyn osgoi dryswch defnyddwyr. Roedd APD yn gefnogol iawn.</p>	
--	--	--

	<p>Cymeradwydd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £8,240</p> <p><u>Cynhyrchion Newydd Crefftwy - Heb fod yn Fwyd – Thema 2</u></p> <p>O dan Thema 1, cwblhawyd astudiaeth cynnyrch crefftwy, a oedd yn tynnu sylw at y potensial i'r crefftwy a nodwyd dreialu peth o'u cynnyrch presennol lefel uwch. O'r astudiaeth hon, bydd Thema 2 yn canolbwyntio ar ganfod pa gynnyrch allai fod yn werthadwy. Mae'r peilot cyntaf yn rhan o ddatblygiad fesul cam i nodi'r crefftwy/ cynnyrch posibl hynny, er mwyn cynyddu amrediad y cynnyrch a gynigir ar Ynys Môn drwy:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Brofi potensial yr amrediad cynnyrch presennol a gallu'r crefftwy 2. Nodi lle gall cynhyrchion gael eu gwella, ychwanegu atynt a/ neu gael eu datblygu drwy gydweithredu. 3. Adnabod y deg cynnyrch 'uchaf', datblygu'r cynllun i ychwanegu gwerth a chomisiynu'r dyluniadau hynny 4. Rhoi prawf ar fasnach a gwerthuso'r cynhyrchion a ddewiswyd yn derfynol a datblygiad y crefftwr i gynnal y cynnyrch ac/ neu'r amrediad. <p>Y peilot cyntaf yw asesu'r crefftwy presennol a'r rhai a adnabuwyd drwy eu cynnwys mewn digwyddiad crefft lle ceisir adborth gan y cyhoedd.</p> <p>Ym mis Awst, mae Digwyddiad Bwyd Crefftwy i fod i'w gynnal yn Llangefni, a fydd yn tynnu amrywiaeth eang o drigolion lleol a thwristiaid i'r ardal. Cynigir felly bod y cynnwys crefft 'arferol' yn newid ffocws ac yn dod yn fwy 'unigryw', a bod y crefftwy a adnabuwyd yn yr adroddiad yn cael eu harddangos gyda synergedd a'u dewis yn ofalus. Bydd y cynnyrch sy'n cael ei arddangos/ ar gael yn cael ei werthuso yn ystod y noson, cyn belled ag y bo modd heb dorri ar draws profiad y cwsmeriaid, er mwyn cael adborth, nid yn unig ar yr hyn sy'n cael ei arddangos, ond yr hyn y mae pobl yn teimlo sydd ar goll. Bydd y gwerthusiad hwn o'r digwyddiad yn cael ei gwblhau drwy gontractwr a'i gyflwyno i is-grŵp Thema 2 ar gyfer cynnydd pellach o safbwynt datblygu.</p> <p>Cafwyd trafodaeth gyffredinol o ran y mathau o grefftau newydd a fyddai'n cael eu cynnig - cadarnhaodd y Cadeirydd, o ddarllen yr adroddiad: turnwyr pren, tlysau cerameg ayb.</p> <p>Cymeradwydd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £5,280</p> <p><u>Llyfrgelloedd Cymunedol – Thema 3</u></p> <p>Mae'r prosiect yn ceisio lliniaru effeithiau toriadau yn y gwasanaeth, yn yr achos hwn drwy edrych ar y dewisiadau y mae'n rhaid i grwpiau cymunedol eu cymryd ynghylch eu gwasanaeth llyfrgelloedd lleol ac ail-sefydlu'r rhain yn eu canolfannau cymunedol eu hunain.</p> <p>Bwriedir caffael cyfrifydd a chontractwr â chymwysterau addas i weithio gyda'r canolfannau cymunedol a Menter Môn ar y gweithgaredd canlynol: -</p> <ul style="list-style-type: none"> • Edrych ar opsiynau posibl y mae'n rhaid i ganolfannau cymunedol ymgymryd â 	
--	---	--

	<p>hwy er mwyn cynnal llyfrgell ar gyfer eu cymuned</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gosod heriau cryf i'r gymuned o ddiddordeb mewn perthynas â 'sut fydd hyn yn gweithio' • Canfod a chael gafael ar hyn yw gwir gostau rhedeg pob llyfrgell trwy weithio gyda CSYM • Cynhyrchu adroddiad terfynol ac argymell ffyrdd ymlaen, gan gynnwys pwysleisio'r angen am gynlluniau busnes cadarn a threialu posibl. <p>Esboniodd JL a DG ynglŷn â defnyddio pecyn cymorth arbenigol a gynhyrchwyd gan LEADER Gwynedd i unig bwrpas cynhyrchu rhagolygon ariannol cywir. Bydd y pecyn cymorth yn cael ei ddefnyddio gan un neu ddwy o'r llyfrgelloedd i asesu eu galluoedd i gymryd yr ased ymlaen (nid y gwasanaeth). Bydd MM yn gweithio gyda CSYM sydd eisoes wedi gwneud llawer o waith ar y pwnc i ddatblygu briff cadarn i gonastrwtwr a chyfrifydd weithio arno. Bydd y cyfrifydd yn gweithio gydag un neu ddwy o lyfrgelloedd gan ddefnyddio'r pecyn cymorth, a'r contractwr fydd yn gyfrifol am yr astudiaeth gan weithio gyda'r gymuned o ddiddordeb a rhanddeiliaid eraill.</p> <p>Dywedodd SP bod Medrwn Môn wedi bod yn rhan o'r ymgynghoriad ac os oedd MM angen unrhyw gymorth pellach eu bod yn awyddus i helpu. Diolchodd GLIJ a JL iddi am ei chefnogaeth.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £10,000</p> <p><u>Astudiaeth Ychwanegol Penhesgyn</u></p> <p>Mae'r prosiect yn ceisio dangos bod cyfleoedd sylweddol yn bodoli ar gyfer cydweithio rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Gall adnoddau a defnydd uchel o ynni yn y sector cyhoeddus gael eu lliniaru trwy ddefnyddio LEADER i dreialu atebion arloesol ac o ran hyrwyddo newid ymddygiad a defnyddio systemau ynni adnewyddadwy. Gan ddefnyddio porthiant sydd ar gael gan y sector amaethyddol ar yr ynys i gynhyrchu Treulio Anerobig a harneisio gwres gwastraff ar gyfer y gymuned dan arweiniad prosiectau, ceir meincnod i ddangos sut y gall systemau ynni adnewyddadwy a lleihau CO2 gael eu cyflawni mewn partneriaeth.</p> <p>Bwriada'r prosiect ddilyn ymlaen o'r astudiaeth gynharach a wnaed gan Severn Wye Energy a Phrifysgol De Cymru, a sefydlodd baramedrau safle Penhesgyn a'r cyfleoedd posibl. Mae angen y gwaith ychwanegol hwn i gadarnhau hyfywedd y ddau argymhelliad yn yr astudiaeth fanylach. Hefyd mae diogelwch a chost porthiant angen ymchwil pellach, fel y mae mân fanylion y costau cyfalaf a refeniw. Yn olaf mae angen i'r astudiaeth wneud argymhellion ar ffynonellau posibl o ariannu ar gyfer gweithredu'r cynnig.</p> <p>Bydd yr adroddiad terfynol yn rhoi digon o wybodaeth i'w defnyddio i gynnal trafodaethau adeiladol gyda'r Cyngor Sir i benderfynu os a sut y gall y prosiect gael ei weithredu. Os cytunir, gallai hyn arwain at geisiadau am arian a phrosiect adfer gwres cymunedol y gellir ei rannu gyda sefydliadau eraill yn ogystal â lleihau CO2 a menter gydweithredol gyda CSYM. Gwelir hyn fel darn angenrheidiol a therfynol o gefnogaeth</p>	
--	---	--

	<p>gan LEADER i ddarparu'r modd i CSYM symud agenda TA ac adennill gwres ymlaen, neu i dynnu'n ôl o'r fenter prosiect cydweithredol arfaethedig.</p> <p>Eglurodd NJ y byddai LEADER a Severn Wye Energy yn talu am yr astudiaeth hon.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £2,684</p> <p><u>Astudiaeth Ynni Adeiladau Cymunedol – Thema 4</u></p> <p>Mae nifer o sefydliadau sydd wedi'u lleoli yn Ynys Môn wedi dod ynghyd i ganfod atebion i heriau a rennir sy'n ymwneud â hyfywedd gwasanaethau sylfaenol yn eu cymunedau ac i ddeall yr agenda arbed ynni a lleihau carbon. Mae realiti economaidd ac effaith toriadau yng nghyllideb yr awdurdod lleol yn cael dylanwad ar hyfywedd ariannol llawer o adeiladau cymunedol yr ynys. Yn Ynys Môn maent yn awr ar groesffordd, gyda nifer o ddatblygiadau diweddar angen canfod atebion newydd i greu amodau ffafriol i sicrhau dyfodol cynaliadwy. Mae nifer o enghreifftiau o Dde Ddwyrain Ynys Môn yn darparu enghreifftiau defnyddiol o'r materion cyffredin hyn. Ym Miwmares, sefydlwyd menter gymdeithasol newydd i redeg y ganolfan hamdden, a weithredwyd yn flaenorol gan y cyngor sir. Yn Llanddona, mae grŵp cymunedol yn y broses o gaffael ysgol gynradd y pentref gan y cyngor sir fel dewis amgen i'r neuadd gymunedol bresennol. Gall hyn ei gwneud yn ofynnol iddynt werthu'r ganolfan gymunedol bresennol. Hefyd mae gan Llandegfan a Llangoed neuaddau cymunedol (yn Llangoed, mae Pobol Seiriol Amgylcheddol yn cael defnyddio man cyfarfod cymunedol sy'n eiddo i CSYM) ac yn Llanfaes sefydlwyd siop bentref gymunedol yn ddiweddar. Mae'r cronïad hwn o adeiladau cymunedol yn rhoi cyfle i chwilio am atebion i broblemau economaidd ac ariannol, ac i hyrwyddo arbed ynni a gosodiadau ynni adnewyddadwy.</p> <p>Mewn mannau eraill, mae'r pum cyngor tref ar yr ynys wedi cydnabod yr angen i werthuso'r defnydd o ynni a'u hól troed amgylcheddol ac edrych ar gynaliadwyedd eu swyddfeydd. Yn ogystal, mae gan neuadd bentref yn y Gaerwen - Canolfan Esceifiog – a'r siop bentref yn Llanfechell broblemau tebyg yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni a chost gymharol ynni i'w hincwm a chynaliadwyedd.</p> <p>Mae'r prosiect yn dymuno archwilio sut y gall cymunedau gymryd rhan mewn arbed ynni a harneisio ynni adnewyddadwy glân trwy ddod at ei gilydd i weithio ar y cyd ar y defnydd o adeiladau a redir gan y gymuned ac sydd mewn perchnogaeth gymunedol, drwy gael mynediad at arbenigedd priodol a thrwy brynu eu cyflenwad ynni ar y cyd.</p> <p>Bydd hyn angen casglu data sylfaenol ar yr adeiladau a nodi cyfleoedd i arbed ynni a fyddai'n gwella effeithlonrwydd ynni a lleihau allyriadau CO2. Gallai arbed ynni gael ei ystyried o safbwynt effeithlonrwydd ynni adeiladau, megis insiwleiddio a mesuryddion, a hefyd trwy edrych ar newid ymddygiad yn y defnydd o'r adeilad.</p> <p>Byddai'r astudiaeth hefyd yn ymchwilio i'r opsiwn o greu Cwmni Gwasanaethau Ynni Cymunedol CESCO - er mwyn sicrhau ynni rhatach gydag opsiynau i gael cyflenwadau o ffynonellau ynni adnewyddadwy a gynhyrchir yn lleol</p> <p style="padding-left: 40px;">Mae ynni lleol yn golygu crynhoi defnyddwyr trydan bach (domestig a/ neu busnesau bach) mewn ESCO Cymunedol er mwyn cymryd rhan yn y farchnad trydan ½ awr ac elwa o'r ffaith bod prisiau trydan yn is ar adegau penodol.</p>	
--	---	--

	<p>Gellir cyfuno hyn â chynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol sy'n eiddo i'r gymuned e.e. pan fydd cynllun gwynt, hydro neu solar lleol yn cynhyrchu trydan y gellir ei gyflenwi i'r CESCO ar gyfraddau is (e.e 8.5c/kWh yn lle dyweder 14p/kWh) er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - cael biliau ynni is - galluogi'r cynhyrchydd ynni adnewyddadwy cymunedol i gael gwell pris am ei drydan <p>Bydd yr astudiaeth beilot yn dosbarthu pob cynhyrchydd ar Ynys Môn gyda'u potensial ar gyfer cymryd rhan mewn model cyflenwi lleol.</p> <p>Felly bydd y cymorth yn edrych ar yr heriau technegol a materion yn ymwneud â llywodraethu a sefydlu model lleol o ynni fel Cwmni Gwasanaeth Ynni Cymunedol - (CESCO).</p> <p>Y nod yn dilyn hyn fyddai gwneud cais am RCDF ar sail yr adroddiad terfynol gyda golwg ar ariannu prosiectau cyfalaf fel cynlluniau gwresogi cymunedol neu gyfwerth.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £25,000</p> <p><u>DAISY</u></p> <p>Mae'r peilot yn anelu at ddarparu mynediad i wasanaeth digidol newydd ar gyfer pobl â nam ar eu clyw ac i ddangos y gall defnyddwyr gwasanaethau anodd eu cyrraedd ddod yn fwy annibynnol ac yn fwy digidol ymwybodol.</p> <p>Bydd y cynnig hwn yn treialu hyfforddiant a gwasanaeth gwybodaeth wyneb yn wyneb i bobl sydd â nam difrifol ar eu clyw trwy wneud defnydd o dechnoleg ddigidol. Ar hyn o bryd nid oes cyfleuster cyswllt wyneb yn wyneb dros Skype ar gyfer pobl â nam ar eu clyw yn Ynys Môn. Mae'r cynllun peilot yn anelu at gysylltu defnyddwyr gwasanaethau o bob oed gyda chyfieithydd arwyddion (BSL) a'r person Cwllwm Bro sydd wedi'i leoli o fewn Medrwn Môn, i gael mynediad at wasanaethau lefel isel gan gyrrff trydydd sector a fydd yn eu cynorthwyo i fyw bywydau mwy annibynnol:</p> <p>Bydd y peilot yn canolbwyntio ar:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hyfforddi staff i hyfforddi defnyddwyr gwasanaeth i ddefnyddio ffonau symudol a thabledi i gyfathrebu â chyfieithwyr (gwasanaeth am ddim i'r defnyddiwr gwasanaeth) • Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant yn cael eu gwneud yn hygyrch trwy fforymau presennol Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru • Ni fydd angen prynu offer gan fod gan Medrwn Môn a Menter Môn rhyngddynt stoc o dabledi ac I-Padiau y gellir eu defnyddio at y diben hwn • Hefyd cynhyrchir fideo hyfforddi a all fod ar gael hefyd ar youtube • Bydd y gwasanaeth ar gael am ddau ddiwrnod yr wythnos 10:00am - 3:00pm o Neuadd y Dref Llangefni • Bydd y cynllun peilot yn rhedeg am 6 mis tra gwneir ceisiadau am gyllid grant i 	
--	--	--

	<p>barhau ac i ddatblygu'r peilot ymhellach</p> <ul style="list-style-type: none"> • Bydd y cynllun peilot hefyd yn rhoi sylw i gyfeirio'r defnyddwyr gwasanaeth ymlaen i gyfleoedd hyfforddiant pellach a thrwy hynny wella eu cyflogadwyedd <p>Caiff yr arian ei wario ar hyfforddiant, cyfieithwyr ar y pryd, codi ymwybyddiaeth a llogi ystafelloedd.</p> <p>Hysbysodd JL y Grŵp Gweithredu Lleol y gallai tua 119 o bobl o bob oed ar Ynys Môn ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Teimlai'r Cadeirydd fod hwn yn beilot gwerth chweil a holodd am gyfleoedd cyflogaeth i gyfranogwyr, ac am hysbysu busnesau. Ymatebodd JL trwy ddweud bod NWDA ar fframwaith ardal ar gyfer cyflwyno hyfforddiant i gyfranogwyr sydd â nam ar eu clyw.</p> <p>Cymeradwyodd y GGLI mewn egwyddor i gefnogi'r cynnig hwn gyda gwariant o £11,945</p>	
9	<p>FLAG</p> <p>Hysbysodd JaD y GGLI bod yr EOI cychwynol am statws FLAG wedi ei gymeradwyo ac rydym yn awr drwedd i'r cam olaf.</p>	
10	<p>Hyrwyddwyr ynni</p> <p>Adroddodd NJ ei ganfyddiadau i'r Grŵp Gweithredu Lleol fel a ganlyn: - Mae gan y gwasanaeth Cyngor ar Bopeth lawer o wybodaeth ar dlodi tanwydd a data mynediad at ddefnydd. Mae Cronfa Ardal yr Iwerydd hefyd yn gweithio ar brosiect sy'n dylanwadu ac annog newid ymddygiad ac ymgysylltu â chymunedau lleol. Y nod yw i gymunedau ddod yn Garbon Niwtral gyda rhaglen wedi'i chostio a recriwtio Hyrwyddwyr Ynni Cymunedol gwirfoddol er mwyn iddynt gael eu cynnull fel cymuned o ddiddordeb. Cytunwyd i MM lunio datganiad i'r wasg ac ymgysylltu â'r cyfryngau cymdeithasol.</p>	<p>NJ i gynhyrchu PR, DG i edrych ar gyfleoedd ar y cyfryngau cymdeithasol</p>
11	<p>Unrhyw Fater Arall</p> <p>Dywedodd JD (LIC) bod angen i'r Grŵp Gweithredu Lleol gynnwys 18 aelod, ac yn y cyfarfod diwethaf a fynychodd, gwnaed 6 o argymhellion i'r GGLI ond nid oedd yr un wedi'u gweithredu. Cytunodd GLLJ a'r Cadeirydd i ail-ymweld â'r argymhellion hynny a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu yn y cyfarfod nesaf.</p>	<p>GLIJ, DG ac EJ i sicrhau cydymffurfiaeth erbyn y cyfarfod nesaf</p>
12	<p>Dyddiad y Cyfarfod Nesaf</p> <p>Ar hyn o bryd, Hydref 5^{ed}, ond gall hwn newid</p>	
	<p>Gorffen</p>	

Choose an item.